



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2020 Rhif 595 (Cy. 136)

2020 No. 595 (W. 136)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

PUBLIC HEALTH, WALES

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd
y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n
Teithio i Gymru etc.) 2020**

**The Health Protection
(Coronavirus, Public Health
Information for Persons Travelling
to Wales etc.) Regulations 2020**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r perygl i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2). Mae adran 45B o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaethau at ddiben (ymhlith pethau eraill) atal perygl i iechyd y cyhoedd a ddaw o lestrau, awyrennau, trenau neu gludiant arall yn cyrraedd unrhyw fan.

These Regulations are made in response to the danger to public health which is posed by the incidence and spread of severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2). Section 45B of the Public Health (Control of Disease) Act 1984 enables the Welsh Ministers, by regulations, to make provision for the purpose of (amongst other things) preventing danger to public health from "vessels, aircraft, trains or other conveyances arriving at any place".

Mae'r Rheoliadau yn gosod gofyniad ar weithredwyr gwasanaethau teithwyr rhyngwladol sy'n dod o'r tu allan i'r ardal deithio gyffredin i faes awyr, maes hofrenyddion neu borthladd môr yng Nghymru ("gweithredwyr") i ddarparu gwybodaeth iechyd y cyhoedd benodol sy'n ymwneud â'r feirws i deithwyr.

The regulations place a requirement on operators of international passenger services coming from outside the common travel area to an airport, heliport or seaport in Wales ("operators") to provide passengers with certain public health information relating to the virus.

Mae rheoliad 3 yn gosod gofynion ar weithredwyr ar adeg archebu taith a chofrestru ar gyfer taith. Pan fo'r archebu neu'r cofrestru yn digwydd ar lein, mae'r rheoliad yn ei gwneud yn ofynnol i'r gweithredwr i roi ar gael i deithwyr ddolen i'r tudalennau perthnasol ar wefan gov.uk a gwefan llyw.cymru. Pan fo'r archebu neu'r cofrestru yn digwydd dros y ffôn neu wyneb yn wyneb, mae'n ofynnol i weithredwyr gyfeirio'r teithiwr at y tudalennau hyn.

Regulation 3 imposes requirements on operators at the point of both booking and check-in. Where booking or checking in is undertaken online the regulation requires the operator to make available to passengers a link to the relevant pages of the gov.uk website and the gov.wales website. Where booking or checking in is undertaken by telephone or in person operators are required to direct the passenger to these pages.

Mae rheoliad 4 yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr ddarparu'r datganiad gwybodaeth iechyd y cyhoedd yn yr Atodlen i deithwyr tra bônt ar y llestr neu'r awyren.

Mae rheoliad 5 yn darparu eithriad i'r gofyniad i ddarparu gwybodaeth iechyd y cyhoedd yn rheoliadau 3 a 4; nid yw'n gymwys pan fo'r person sy'n cael yr wybodaeth yn annhebygol o allu ei deall.

Mae rheoliad 6 yn creu trosedd ddiannod o dorri'r gofyniad i ddarparu'r wybodaeth iechyd y cyhoedd yn rheoliadau 3 a 4. Mae'r drosedd i'w chosbi drwy ddirwy.

Mae rheoliad 6(2) yn darparu amddiffyniad o "esgus rhesymol" i weithredwr a gyhuddir o drosedd o dan rheoliad 4 (torri gofyniad i ddarparu gwybodaeth i deithwyr tra bônt ar y llestr neu'r awyren).

Mae rheoliad 7 yn darparu y caniateir gosod cosbau penodedig ar bersonau yr amheuir eu bod wedi cyflawni trosedd o dan y Rheoliadau hyn yn lle eu herlyn. Y gosb yw £4000.

Rhaid adolygu'r angen am y Rheoliadau hyn a'u cymesuredd bob 21 o ddiwrnodau (rheoliad 9).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Regulation 4 requires operators to provide the public health information statement in the Schedule to passengers while on board.

Regulation 5 provides an exception to the requirement to provide the public health information in regulations 3 and 4; it does not apply where the recipient of the information is unlikely to be capable of understanding it.

Regulation 6 creates a summary only offence of contravening the requirements to provide the public health information in regulations 3 and 4. The offence is punishable by a fine.

Regulation 6(2) provides a defence of "reasonable excuse" for an operator charged with an offence under regulation 4 (contravening a requirement to provide information to passengers whilst on board).

Regulation 7 provides that fixed penalties may be imposed on persons who are suspected of committing an offence under these Regulations as an alternative to prosecution. The penalty is £4000.

The necessity and proportionality of these Regulations must be reviewed every 21 days (regulation 9).

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has not been prepared as to the likely cost and benefit of complying with these Regulations.

2020 Rhif 595 (Cy. 136)

2020 No. 595 (W. 136)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

PUBLIC HEALTH, WALES

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd
y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n
Teithio i Gymru etc.) 2020**

**The Health Protection
(Coronavirus, Public Health
Information for Persons Travelling
to Wales etc.) Regulations 2020**

Gwnaed am 5.38 p.m. ar 15 Mehefin 2020

Made at 5.38 p.m. on 15 June 2020

*Gosodwyd gerbron Senedd
Cymru 16 Mehefin 2020*

Laid before Senedd Cymru 16 June 2020

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2) a (3)

*Coming into force in accordance with
regulation 1(2) and (3)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B, 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1).

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred on them by sections 45B, 45F(2) and 45P(2) of the Public Health (Control of Disease) Act 1984(1).

RHAN 1

PART 1

Cyffredinol

General

Enwi a dod i rym

Title and coming into force

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020.

1.—(1) The title of these Regulations is the Health Protection (Coronavirus, Public Health Information for Persons Travelling to Wales etc.) Regulations 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau 2 i 9 i rym ar 17 Mehefin 2020.

(2) Regulations 2 to 9 come into force on 17 June 2020.

(3) Daw'r rheoliad hwn a rheoliadau 10 ac 11 i rym pan wneir y Rheoliadau hyn.

(3) This regulation and regulations 10 and 11 come into force when these Regulations are made.

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14).

(1) 1984 c. 22. Part 2A was inserted by section 129 of the Health and Social Care Act 2008 (c. 14).

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

mae i “ardal deithio gyffredin” yr ystyr a roddir i “common travel area” yn adran 1(3) o Ddeddf Mewnfudo 1971(1);

ystyr “coronafeirws” (“*coronavirus*”) yw coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2);

ystyr “gwasanaeth teithwyr rhyngwladol” (“*international passenger service*”) yw gwasanaeth masnachol y mae teithwyr yn ei ddefnyddio i deithio ar lestr neu awyren o’r tu allan i’r ardal deithio gyffredin i borthladd yng Nghymru;

ystyr “llestr” (“*vessel*”) yw pob ddisgrifiad o lestr a ddefnyddir i fordwyo (gan gynnwys hofrenfad o fewn ystyr “hovercraft” yn Neddf Hofrenfadau 1968(2)) sy’n 24 o fetrau neu fwy o hyd;

ystyr “person awdurdodedig” (“*authorised person*”) yw—

- (a) mewn perthynas â theithwyr sy’n cyrraedd ar lestr, yr Ysgrifennydd Gwladol;
- (b) mewn perthynas â theithwyr sy’n cyrraedd ar awyren, yr Awdurdod Hedfan Sifil(3);

mae “porthladd” (“*port*”) yn cynnwys unrhyw faes awyr, maes hofrenyddion neu borthladd môr.

RHAN 2

Gofynion i ddarparu gwybodaeth i deithwyr

Darparu gwybodaeth cyn archebu ac wrth gofrestru

3.—(1) Rhaid i weithredwr unrhyw wasanaeth teithwyr rhyngwladol ddarparu’r wybodaeth a bennir ym mharagraff (2) fel rhan o unrhyw gyfleuster a reolir gan y gweithredwr y caiff person ei ddefnyddio—

- (a) i archebu taith ar y gwasanaeth, neu
- (b) i gofrestru i deithio ar y gwasanaeth.

Interpretation

2. In these Regulations—

“authorised person” (“*person awdurdodedig*”) means—

- (a) in relation to passengers arriving on a vessel, the Secretary of State;
- (b) in relation to passengers arriving on an aircraft, the Civil Aviation Authority(1);

“common travel area” (“*ardal deithio gyffredin*”) has the meaning given in section 1(3) of the Immigration Act 1971(2);

“coronavirus” (“*coronafeirws*”) means severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2);

“international passenger service” (“*gwasanaeth teithwyr rhyngwladol*”) means a commercial service by which passengers travel on a vessel or aircraft from outside the common travel area to a port in Wales;

“port” (“*porthladd*”) includes any airport, heliport or seaport;

“vessel” (“*llestr*”) means every description of vessel used in navigation (including a hovercraft within the meaning of Hovercraft Act 1968(3)) which is 24 metres or more in length.

PART 2

Requirements to provide information to passengers

Provision of information before booking and at check-in

3.—(1) The operator of any international passenger service must provide the information specified in paragraph (2) as part of any facility managed by the operator by which a person—

- (a) may make a booking for travel on the service, or
- (b) may check-in for travel on the service.

(1) 1971 p. 77. Mae’r adran honno yn darparu y cyfeirir ar y cyd at y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon fel “the common travel area”.

(2) 1968 p. 59.

(3) Mae’r Awdurdod Hedfan Sifil yn gorff corfforedig a sefydlwyd gan adran 1 o Ddeddf Hedfan Sifil 1971 (p. 75).

(1) The Civil Aviation Authority is a body corporate established by section 1 of the Civil Aviation Act 1971 (c. 75).

(2) 1971 c. 77. That section provides that the United Kingdom, the Channel Islands, the Isle of Man, and the Republic of Ireland are collectively referred to as “the common travel area”.

(3) 1968 c. 59.

(2) Yr wybodaeth a grybwyllir ym mharagraff (1)(a) yw—

- (a) yn achos cyfleuster a ddarperir ar lein—
 - (i) dolen i www.gov.uk/uk-border-control, a
 - (ii) dolen i www.llyw.cymru/coronafeirws ynghyd â datganiad bod yr wybodaeth a geir ar y ddolen honno yn cynnwys y cyngor diweddaraf o ran iechyd y cyhoedd sy'n ymwneud â'r coronafeirws yng Nghymru,
- wedi ei gosod mewn lle amlwg fel bod y dolenni yn weladwy cyn archebu neu gofrestru;
- (b) yn achos cyfleuster a ddarperir dros y ffôn neu wyneb yn wyneb, cyfarwyddyd—
 - (i) i ddarllen yr wybodaeth ar www.gov.uk/uk-border-control, a
 - (ii) i fynd i www.llyw.cymru/coronafeirws ynghyd â datganiad bod yr wybodaeth a geir ar y ddolen honno yn cynnwys y cyngor diweddaraf o ran iechyd y cyhoedd sy'n ymwneud â'r coronafeirws yng Nghymru;

- (c) yn y naill achos neu'r llall, cais i drosglwyddo'r wybodaeth a grybwyllir yn is-baragraff (a) neu (b) (yn ôl y digwydd) i unrhyw berson—
 - (i) yr archebir taith ar ei ran, neu
 - (ii) y cofrestrir ar gyfer taith ar ei ran.

(3) Pan na fo'r gweithredwr yn rheoli'r broses archebu neu gofrestru yn uniongyrchol, rhaid i'r gweithredwr gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau bod y person sy'n rheoli'r broses yn cydymffurfio â pharagraff (1) ar ran y gweithredwr.

Darparu gwybodaeth yn ystod taith

4.—(1) Rhaid i weithredwr gwasanaeth teithwyr rhyngwladol sicrhau y darperir pob teithiwr ar y llestr neu'r awyren â'r datganiad a nodir yn yr Atodlen yn ystod y daith i'r porthladd yng Nghymru.

(2) Rhaid darparu'r datganiad ar lafar yn Gymraeg, yn Saesneg ac mewn iaith a gydnabyddir yn swyddogol yn y wlad yr ymadawyd â hi.

Eithriad o ofynion rheoliadau 3 a 4

5. Nid oes dim yn rheoliad 3 neu 4 yn ei gwneud yn ofynnol darparu gwybodaeth i berson sydd, yn rhinwedd oedran neu alluedd meddyliol, yn annhebygol o allu ei deall.

(2) The information mentioned in paragraph (1)(a) is—

- (a) in the case of a facility provided online—
 - (i) a link to www.gov.uk/uk-border-control, and
 - (ii) a link to www.gov.wales/coronavirus along with a statement that the information found at that link contains the latest public health advice relating to coronavirus in Wales,
- embedded in a prominent place so that the links are visible prior to a booking being made or check-in being completed;
- (b) in the case of a facility provided by telephone or face to face, an instruction—
 - (i) to read the information at www.gov.uk/uk-border-control, and
 - (ii) to visit www.gov.wales/coronavirus along with a statement that the information found at that link contains the latest public health advice relating to coronavirus in Wales;

- (c) in either case, a request to pass on the information mentioned in sub-paragraph (a) or (b) (as the case may be) to any person on whose behalf—
 - (i) a booking is being made, or
 - (ii) check-in is being carried out.

(3) Where the operator does not directly manage the booking or check-in process, the operator must take all reasonable measures to ensure that the person managing the process complies with paragraph (1) on the operator's behalf.

Provision of information during journey

4.—(1) The operator of an international passenger service must ensure that every passenger on the vessel or aircraft is provided with the statement set out in the Schedule during the journey to the port in Wales.

(2) The statement must be provided orally in Welsh, English and an officially recognised language of the country of departure.

Exception from requirements of regulations 3 and 4

5. Nothing in regulation 3 or 4 requires information to be provided to a person who, by virtue of age or mental capacity, is unlikely to be capable of understanding it.

RHAN 3

Troseddau, cosbau ac erlyniadau

Troseddau

6.—(1) Mae person sy'n torri gofyniad yn rheoliad 3(1) neu (3), neu reoliad 4 yn cyflawni trosedd.

(2) Mae'n amddiffyniad i gyhuddiad o gyflawni'r drosedd o dorri'r gofyniad yn rheoliad 4 i ddangos bod gan y person esgus rhesymol dros dorri'r gofyniad.

(3) Mae person sy'n cyflawni trosedd o dan baragraff (1) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

Hysbysiadau cosb benodedig

7.—(1) Caiff person awdurdodedig ddyroddi hysbysiad cosb benodedig i unrhyw berson ("P") y mae'r person awdurdodedig yn credu'n rhesymol ei fod wedi cyflawni trosedd o dan reoliad 6(1).

(2) Mae hysbysiad cosb benodedig yn hysbysiad sy'n cynnig i P y cyfle i gael ei ryddhau o unrhyw atebolrwydd am euogfarn am y drosedd drwy dalu cosb benodedig i—

- (a) Gweinidogion Cymru, neu
- (b) person a ddynodir gan Weinidogion Cymru at ddibenion cael taliad o dan y rheoliad hwn.

(3) Pan fo hysbysiad wedi ei ddyroddi o dan baragraff (1) mewn cysylltiad â throsedd—

- (a) ni chaniateir dwyn unrhyw achos am y drosedd cyn diwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad y dyroddir yr hysbysiad;
- (b) ni chaniateir euogfarnu P o'r drosedd os yw P yn talu'r gosb benodedig cyn diwedd y cyfnod hwnnw.

(4) Rhaid i hysbysiad cosb benodedig—

- (a) disgrifio'r amgylchiadau yr honnir eu bod yn ffurfio'r drosedd,
- (b) datgan y cyfnod pan (oherwydd paragraff (3)(a)) na ddygir achos am y drosedd,
- (c) pennu swm y gosb benodedig,
- (d) datgan enw a chyfeiriad y person y caniateir talu'r gosb benodedig iddo, ac
- (e) pennu dulliau o dalu a ganiateir.

(5) Rhaid i swm y gosb benodedig a bennir o dan baragraff (4)(c) fod yn £4,000.

PART 3

Offences, penalties and prosecutions

Offences

6.—(1) A person who contravenes a requirement in regulation 3(1) or (3) or regulation 4 commits an offence.

(2) It is a defence to a charge of committing the offence of contravening the requirement in regulation 4 to show that the person had a reasonable excuse for the contravention.

(3) A person who commits an offence under paragraph (1) is liable on summary conviction to a fine.

Fixed penalty notices

7.—(1) An authorised person may issue a fixed penalty notice to any person ("P") that the authorised person reasonably believes has committed an offence under regulation 6(1).

(2) A fixed penalty notice is a notice offering P the opportunity of discharging any liability to conviction for the offence by payment of a fixed penalty to—

- (a) the Welsh Ministers, or
- (b) a person designated by the Welsh Ministers for the purposes of receiving payment under this regulation.

(3) Where a notice is issued under paragraph (1) in respect of an offence—

- (a) no proceedings may be taken for the offence before the end of the period of 28 days following the date the notice is issued;
- (b) P may not be convicted of the offence if P pays the fixed penalty before the end of that period.

(4) A fixed penalty notice must—

- (a) describe the circumstances alleged to constitute the offence,
- (b) state the period during which (because of paragraph (3)(a)) proceedings will not be taken for the offence,
- (c) specify the amount of the fixed penalty,
- (d) state the name and address of the person to whom the fixed penalty may be paid, and
- (e) specify permissible methods of payment.

(5) The amount of the fixed penalty specified under paragraph (4)(c) must be £4,000.

- (6) Mewn unrhyw achos, mae tystysgrif—
- (a) sy'n honni ei bod wedi ei llofnodi gan neu ar ran—
 - (i) Gweinidogion Cymru, neu
 - (ii) person a ddynodir gan Weinidogion Cymru o dan baragraff (2)(b), a
 - (b) sy'n datgan i'r taliad am y gosb benodedig ddod i law, neu na ddaeth i law, erbyn y dyddiad a bennir yn y dystysgrif,
- yn dystiolaeth o'r ffeithiau a ddatgenir.

Erlyniadau

8. Ni chaniateir dwyn achos am drosedd o dan y Rheoliadau hyn ac eithrio gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus neu berson awdurdodedig.

RHAN 4

Amrywiol

Adolygu'r gofynion

- 9.—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad o'r gofynion a osodir gan Ran 2—
- (a) erbyn 29 Mehefin 2020,
 - (b) o leiaf unwaith yn y cyfnod o 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y dyddiad hwnnw, ac
 - (c) o leiaf unwaith ym mhob cyfnod dilynol o 21 o ddiwrnodau.
- (2) Rhaid i adolygiad a gynhelir o dan baragraff (1) ystyried a yw'r gofynion yn angenrheidiol ac yn gymesur fel modd o atal perygl i'r cyhoedd sy'n deillio o ledaeniad y coronafeirws.

Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020

- 10.—(1) Diwygir Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(1) fel a ganlyn.
- (2) Yn y testun Cymraeg yn unig—
- (a) yn rheoliad 2(1), yn lle'r diffiniad o "gwybodaeth am deithiwr ("*passenger information*")" rhodder—
"ystyr "gwybodaeth am deithiwr" ("*passenger information*") yw'r wybodaeth a bennir yn Atodlen 1;"

- (6) In any proceedings, a certificate—
- (a) that purports to be signed by or on behalf of—
 - (i) the Welsh Ministers, or
 - (ii) a person designated by the Welsh Ministers under paragraph (2)(b), and
 - (b) states that the payment of a fixed penalty was, or was not, received by the date specified in the certificate,
- is evidence of the facts stated.

Prosecutions

8. No proceedings for an offence under these Regulations may be brought other than by the Director of Public Prosecutions or an authorised person.

PART 4

Miscellaneous

Review of requirements

- 9.—(1) The Welsh Ministers must carry out a review of the requirements imposed by Part 2—
- (a) by 29 June 2020,
 - (b) at least once in the period of 21 days beginning with the day after that date, and
 - (c) at least once in every subsequent period of 21 days.
- (2) A review carried out under paragraph (1) must consider whether the requirements are necessary and proportionate as a means of preventing danger to the public arising from the spread of coronavirus.

Amendment of the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) Regulations 2020

- 10.—(1) The Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) Regulations 2020(1) are amended as follows.
- (2) In the Welsh language text only—
- (a) in regulation 2(1), for the definition of "gwybodaeth am deithiwr" ("*passenger information*") substitute—
"ystyr "gwybodaeth am deithiwr" ("*passenger information*") yw'r wybodaeth a bennir yn Atodlen 1;"

(1) O.S. 2020/574 (Cy.132).

(1) S.I. 2020/574 (W. 132)

- (b) yn rheoliad 5(3)(b), yn lle “ddiweddarau ar ran P,” rhodder “diweddarau”;
- (c) yn rheoliad 7—
- (i) ym mharagraff (1)(b)(ii), hepgorer y coma ar ôl “sydd”;
- (ii) ym mharagraff (4)(a) hepgorer y gair “bai”;
- (iii) yn mharagraff (5)(a) ar ôl “yng Nghymru” mewnosoder “sy’n addas i breswyllo ynddi”;
- (d) yn rheoliad 8—
- (i) ym mharagraff (2)(a)(i) yn lle “7(3);” rhodder “7(3); a”;
- (ii) ym mharagraff (3)(b)(i) yn lle “(bod y tu allan i fangre am gyhyd ag y bo’n angenrheidiol)” rhodder “(gadael y fangre dros dro)”;
- (e) yn rheoliad 14(4) yn lle “rreoliadau yma” rhodder “Rheoliadau hyn”;
- (f) yn rheoliad 16(2) yn lle “Reoliadau” rhodder “Rheoliadau”;
- (g) yn rheoliad 17(10)—
- (i) ar ôl ““ddeddfwriaeth diogelu data”” mewnosoder “a “data personol””;
- (ii) yn lle “ac mae i “data personol” yr ystyr a roddir i” rhodder “a”;
- (h) yn Atodlen 1, yn is-baragraff (d), yn lle “ei ddogfen” rhodder “dogfen”;
- (i) yn Atodlen 2—
- (i) ym mharagraff 1 yn is-baragraffau (1)(h) a (2)(a)(i) yn lle “swydd” rhodder “swyddfa”;
- (ii) ym mharagraff 1(2)(a)(i) yn lle “i’r person” rhodder “i P”;
- (iii) ym mharagraff 2(1)(a) yn lle “y tu allan i’r” rhodder “yn y”;
- (iv) yn lle paragraff 3(1)(b) rhodder—
“sydd wedi bod ar lestr a weithredir gan Wasanaeth Llyngesol ei Mawrhydi am gyfnod di-dor o 14 o ddiwrnodau o leiaf yn union cyn iddo gyrraedd ac nad yw’r llestr hwnnw wedi codi unrhyw bersonau nac wedi glanio mewn unrhyw borthladd môr y tu allan i’r ardal deithio gyffredin yn ystod y cyfnod hwnnw.”;
- (v) ym mharagraff 7(2) yn y geiriau agoriadol, yn lle “y paragraff hwn” rhodder “is-baragraff (1)”;
- (b) in regulation 5(3)(b), for “ddiweddarau ar ran P” substitute “diweddarau”;
- (c) in regulation 7—
- (i) in paragraph (1)(b)(ii) omit the comma after “sydd”;
- (ii) in paragraph (4)(a) omit “bai”;
- (iii) in paragraph (5)(a) after “yng Nghymru” insert “sy’n addas i breswyllo ynddi”;
- (d) in regulation 8—
- (i) in paragraph (2)(a)(i) for “7(3);” substitute “7(3); a”;
- (ii) in paragraph (3)(b)(i) for “(bod y tu allan i fangre am gyhyd ag y bo’n angenrheidiol)” substitute “(gadael y fangre dros dro)”;
- (e) in regulation 14(4), for “rreoliadau yma” substitute “Rheoliadau hyn”;
- (f) in regulation 16(2) for “Reoliadau” substitute “Rheoliadau”;
- (g) in regulation 17(10)—
- (i) after ““ddeddfwriaeth diogelu data”” insert “a “data personol””;
- (ii) for “ac mae i “data personol” yr ystyr a roddir i” substitute “a”;
- (h) in Schedule 1, in sub-paragraph (d), for “ei ddogfen” substitute “dogfen”;
- (i) in Schedule 2—
- (i) in paragraph 1, sub-paragraphs (1)(h) and (2)(a)(i) for “swydd” substitute “swyddfa”;
- (ii) in paragraph 1(2)(a)(i) for “i’r person” substitute “i P”;
- (iii) in paragraph 2(1)(a) for “y tu allan i’r” substitute “yn y”;
- (iv) for paragraph 3(1)(b) substitute—
“sydd wedi bod ar lestr a weithredir gan Wasanaeth Llyngesol ei Mawrhydi am gyfnod di-dor o 14 o ddiwrnodau o leiaf yn union cyn iddo gyrraedd ac nad yw’r llestr hwnnw wedi codi unrhyw bersonau nac wedi glanio mewn unrhyw borthladd môr y tu allan i’r ardal deithio gyffredin yn ystod y cyfnod hwnnw.”;
- (v) in paragraph 7(2), in the opening words, for “y paragraff hwn” substitute “is-baragraff (1)”;

(vi) ym mharagraff 13(1)(b) yn y ddau le y mae'n ymddangos, ar ôl "plismona" mewnosoder "hanfodol".

(3) Yn Atodlen 2—

(a) yn lle'r pennawd i'r Atodlen rhodder—

"Personau esempt"

(b) yn y pennawd i Ran 1 o'r Atodlen, yn lle "3 a rheoliad 4" rhodder "4,5,7 nac 8";

(c) yn y pennawd i Ran 2 o'r Atodlen, yn lle "4" rhodder "7 nac 8".

Y Rheoliadau hyn yn dod i ben

11.—(1) Daw'r Rheoliadau hyn i ben ar ddiwedd y 7fed diwrnod o Fehefin 2021.

(2) Nid yw'r ffaith bod y Rheoliadau hyn wedi dod i ben yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw beth a wneir yn unol â'r Rheoliadau hyn cyn iddynt ddod i ben.

(vi) in paragraph 13(1)(b) insert "hanfodol" after "plismona" in both places where it occurs.

(3) In Schedule 2—

(a) for the heading to the Schedule substitute—

"Exempt persons";

(b) in the heading to Part 1 of the Schedule, for "3 or regulation 4" substitute "4, 5, 7 or 8";

(c) in the heading to Part 2 of the Schedule, for "4" substitute "7 or 8".

Expiry of these Regulations

11.—(1) These Regulations expire at the end of the 7th day of June 2021.

(2) The expiry of these Regulations does not affect the validity of anything done pursuant to these Regulations before they expire.

Mark Drakeford

Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
Am 5.38 p.m. ar 15 Mehefin 2020

The First Minister, one of the Welsh Ministers
At 5.38 p.m. on 15 June 2020

Datganiad ar y llestr neu'r awyren

Y datganiad sydd i'w ddarparu at ddibenion rheoliad 4 yw—

(a) Y fersiwn Gymraeg—

“Dyma neges iechyd y cyhoedd ar ran Llywodraeth Cymru a Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Symptomau'r coronafeirws yw peswch cyson newydd, tymheredd uchel neu golli eich synnwyr blasu neu arogl arferol, neu newid yn eich synnwyr blasu neu arogl. Os ydych yn profi unrhyw un o'r symptomau hyn, waeth pa mor ysgafn ydynt, fe'ch cynghorir chi i wneud eich hunan yn hysbys i'r criw.

Camau syml y gallwch eu cymryd i helpu i'ch diogelu chi eich hun a'ch teulu yw:

1. Golchi eich dwylo.
2. Osgoi cyffwrdd â'ch wyneb â'ch dwylo.
3. Dal peswch a thisian mewn hances bapur a'i gwaredu ar unwaith.

Cyn cael mynediad i'r Deyrnas Unedig, rhaid i chi lenwi ffurflen lleoli cyswllt ar lein ar www.gov.uk. Rhaid i chi hefyd hunanynysu am y 14 o ddiwrnodau ar ôl i chi gyrraedd. Wedi cyrraedd, rhaid ichi gadw'r arfer o gadw pellter cymdeithasol os yn bosibl a theithio'n uniongyrchol i'r man lle rydych yn bwriadu ynysu. Dylech osgoi defnyddio trafndiaeth gyhoeddus oni bai nad oes dewis arall gennyh.

Mae rhestr o'r bobl sy'n esempt rhag y gofynion, ar gael ar lein ar www.llyw.cymru/coronafeirws”

(b) Y fersiwn Saesneg—

“The following is a public health message on behalf of the Welsh Government and Public Health Wales.

The symptoms of coronavirus are a new continuous cough, a high temperature or a loss of, or change in, normal sense of taste or smell. If you experience any of these symptoms, however mild, you are advised to make yourself known to the crew.

Simple measures you can take to help protect yourself and family are:

1. Wash your hands.
2. Avoid touching your face with your hands.
3. Catch coughs and sneezes in a tissue and dispose of it immediately.

Before entering the UK, you must complete a contact locator form online at www.gov.uk. You must also self-isolate for the first 14 days after you arrive. When you arrive you must practice social distancing where possible and travel directly to the place where you intend to isolate. Please avoid using public transport unless you have no alternative.

On-board statement

The statement to be provided for the purposes of regulation 4 is—

(a) Welsh language version—

“Dyma neges iechyd y cyhoedd ar ran Llywodraeth Cymru a Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Symptomau'r coronafeirws yw peswch cyson newydd, tymheredd uchel neu golli eich synnwyr blasu neu arogl arferol, neu newid yn eich synnwyr blasu neu arogl. Os ydych yn profi unrhyw un o'r symptomau hyn, waeth pa mor ysgafn ydynt, fe'ch cynghorir chi i wneud eich hunan yn hysbys i'r criw.

Camau syml y gallwch eu cymryd i helpu i'ch diogelu chi eich hun a'ch teulu yw:

1. Golchi eich dwylo.
2. Osgoi cyffwrdd â'ch wyneb â'ch dwylo.
3. Dal peswch a thisian mewn hances bapur a'i gwaredu ar unwaith.

Cyn cael mynediad i'r Deyrnas Unedig, rhaid i chi lenwi ffurflen lleoli cyswllt ar lein ar www.gov.uk. Rhaid i chi hefyd hunanynysu am y 14 o ddiwrnodau ar ôl i chi gyrraedd. Wedi cyrraedd, rhaid ichi gadw'r arfer o gadw pellter cymdeithasol os yn bosibl a theithio'n uniongyrchol i'r man lle rydych yn bwriadu ynysu. Dylech osgoi defnyddio trafndiaeth gyhoeddus oni bai nad oes dewis arall gennyh.

Mae rhestr o'r bobl sy'n esempt rhag y gofynion ar gael ar lein ar www.llyw.cymru/coronafeirws”

(b) English language version—

“The following is a public health message on behalf of the Welsh Government and Public Health Wales.

The symptoms of coronavirus are a new continuous cough, a high temperature or a loss of, or change in, normal sense of taste or smell. If you experience any of these symptoms, however mild, you are advised to make yourself known to the crew.

Simple measures you can take to help protect yourself and family are:

1. Wash your hands.
2. Avoid touching your face with your hands.
3. Catch coughs and sneezes in a tissue and dispose of it immediately.

Before entering the UK, you must complete a contact locator form online at www.gov.uk. You must also self-isolate for the first 14 days after you arrive. When you arrive you must practice social distancing where possible and travel directly to the place where you intend to isolate. Please avoid using public transport unless you have no alternative.

A list of the people who are exempt from the requirements can be found online at www.gov.wales/coronavirus”

- (c) y datganiad sydd ym mharagraff (a) a (b) wedi ei gyfieithu i iaith a gydnabyddir yn swyddogol yn y wlad yr ymadawyd â hi.

©© Hawlfraint y Goron 2020

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

A list of the people who are exempt from the requirements can be found online at www.gov.wales/coronavirus”

- (c) the statement in paragraph (a) or (b) translated into an officially recognised language of the country of departure.

© Crown copyright 2020

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty’s Stationery Office and Queen’s Printer of Acts of Parliament.

£6.90

W202006151008 06/2020

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2020/595>

ISBN 978-0-348-20570-1



9 780348 205701